



Cyfres newydd, rhif 75

Gwanwyn 2026



Llun: Parth Cyhoeddus (Wicimedia)

wrth godi'r groes ei chyfri'n goron
mewn gorthrymderau llawen fyw,
ffordd yn union, er mor ddyrys,
i ddinas gyfaneddol yw.

Ann Griffiths (Ebrill 1776–Awst 1805)

Cofio ein prif emynyddes – Ann Griffiths, Dolwar Fach

Ddau gant a hanner o flynyddoedd yn ôl, ym mis Ebrill 1776, ganed emynyddes enwocaf a mwyaf poblogaidd ein cenedl, sef Ann Griffiths. Fe'i ganed mewn ffermdy o'r enw Dolwar Fach, ym mhlwyf Llanfihangel-yng-Ngwynfa a'i bedyddio yn eglwys y plwyf ar 21 Ebrill. Er na chafodd lawer iawn o addysg, dysgodd i ddarllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg ac i siarad Saesneg elfennol.

Cafodd ei chodi yn yr Eglwys Wladol, a byddai'n mwynhau bywyd merch ifanc yn y cyfnod hwnnw mewn nosweithiau llawen a dawnsfeydd. Ond cafodd brofiad crefyddol dwys ar ôl gwrando ar Benjamin Jones, Pwllheli, pregethwr amlwg gyda'r Annibynwyr. Yn dilyn cryn wewyr meddwl ymunodd â'r seiat Fethodistaidd ym Mhontrobert yn 1797, a dod i gysylltiad â'r athro a'r pregethwr John Hughes.

Ei bwriad oedd cadw dyddiadur i gofnodi ei phrofiadau dwys a'i myfyrdodau. Ond pan bwysai rhywbeth neilltuol ar ei meddwl, byddai'r cyfan yn llifo ohoni ar ffurf pennill o emyn.

Byddai'n adrodd yr emynau hyn wrth ei morwyn, Ruth Evans. Cadwodd hithau hwy ar ei chof ac ar ôl iddi briodi John Hughes, fe'u cofnodwyd ganddo ef. Er hynny, dim ond ychydig dros 70 pennill o'i gwaith sydd wedi'u cadw. Ceir ynddynt fynegiant o brofiad ysbrydol dwfn a chyfriniol, ac ymadroddion beiddgar.

Yn Hydref 1804, priododd Ann â ffermwr o Feifod o'r enw Thomas Griffiths ond bu farw ar ôl geni ei phlentyn cyntaf ym mis Awst 1805, yn ddim ond 29 mlwydd oed.

'Cân serch nodedig yw emyn enwocaf Ann, "Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd";' yn ôl Wyn James. 'Mae'n gân o ymgysgriad i wrthrych mawr ei ffydd a'i chariad ac yn taro'r nodyn o hiraeth amdano Ef, ac am gael bod yn bur ac yn ffyddlon iddo.' Mae lle i gredu i Ann lunio'r emyn hwn yn sgil pregeth gan John Parry, Caer, awdur y *Rhodd Mam*, ar aelwyd Dolwar Fach un noson ym mis Rhagfyr 1802. Testun y bregeth oedd Caniad Solomon 5:10: 'Fy anwylyd sydd wyn a gwridog, yn rhagori ar ddengmil'.

Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd
wrthrych teilwng o'm holl fryd,
er mai o ran yr wy'n adnabod
ei fod uwchlaw gwrthrychau'r byd:
henffych fore
y caf ei weled fel y mae.

Rhosyn Saron yw ei enw,
gwyn a gwridog, teg o bryd;
ar ddeng mil y mae'n rhagori
o wrthrychau penna'r byd:
ffrind pechadur,
dyma ei beilot ar y môr.

Beth sydd imi mwy a wnelwyf
ag eilunod gwael y llawr?
Tystio 'rwyf nad yw eu cwmni
i'w gystadlu â'm Iesu mawr:
O am aros
yn ei gariad ddyddiau f'oes.

Daw'r cyfeiriad at fyrtydd o weledigaeth yn Sechareia 1:8 o ŵr ar farch coch yn sefyll rhwng y myrtwydd yn y pant. Yn ôl Thomas Charles, y gŵr yw Crist, a'r myrtwydd yn y pant yw 'ei bobl ym mhob oes yn hiselderau a'u cyfyngderau. Y mae Crist yn sefyll yn eu mysg ar ei farch ac yn arfog, yn barod i'w hamddiffyn rhag eu holl elynion'.

(Gwybodaeth o'r *Bywgraffiadur Cymreig*, Wikipedia
a *Dechrau Canu*, E. Wyn James; i ddarllen mwy, ewch i wefan Ann Griffiths:
<https://www.anngriffiths.cardiff.ac.uk/>)

Cyhoeddiadau'r Ofalaeth &c

3 Ebrill	Oedfa Groglith yr Ofalaeth dan arweiniad y Parch. Ddr Watcyn James Capel y Garn am 10 o'r gloch
15 Ebrill	Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro Capel y Tabernacl, Aberaeron, am 1.30pm
23 Ebrill	Sasiwn y De, yng Nghapel y Trinity, Abertawe
10–16 Mai	Wythnos Cymorth Cristnogol
17 Mai	Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion Capel Bethel, Aberystwyth, am 10 a 5.30 o'r gloch
21 Mai	Gŵyl Genhadol y De Capel Blaenannerch am 1.30 o'r gloch Anerchir gan: Dr Eryn White a'r Parch. Geraint Morse
5 Gorff.	Sul Hwyl yr Henaduriaeth am 10.30 o'r gloch Fferm y Bargoed, Llwyncelyn, Aberaeron dan arweiniad Martyn Geraint

Pob dymuniad da i'r Parch. Judith Morris, a fydd yn ymddeol o'i swydd fel Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru ddiwedd Mawrth.

Ymddeoliad hir a hapus, Judith, a diolch am gyfraniad nodedig a gwerthfawr.

Tudalen y Plant

Yn un o storïau Iesu, mae hedyn mwstard bach yn tyfu'n blanhigyn mawr sy'n lloches i'r adar. Gallwn ni blannu hadau sy'n helpu eraill drwy wneud pethau caredig. Dewisa un peth caredig i'w wneud bob dydd. Ysgrifenna neu tynna lun o'r holl bethau caredig rwyt ti eisiau eu gwneud.

Dyma syniadau:



Tynnu llun i aelod o'r teulu, ffrind, neu athro.



Helpu i osod y bwrdd.



Tacluso teganau heb i neb ofyn.



Rhannu tegan neu gêm gyda brawd, chwaer neu ffrind.



Dweud rhywbeth clên ('Dwi'n hoffi dy lun di!').



Dal y drws ar agor i rywun.



Casglu sbwriel (mewn lle diogel gydag oedolyn).



Rhoi llyfr neu degan nad oes ei angen arnat i ffwrdd.



Bwydo anifail anwes neu helpu i roi dŵr i'r blodau (gyda help oedolyn).



Croesawu plentyn newydd yn yr ysgol a gofyn iddynt chwarae.



Pŵer Digidol, Gogoniant Dwyfol – lansio ap gweddi unigryw

Ddechrau mis Mawrth, lansiwyd Ap Gweddi dwyieithog gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Bydd yr ap, sef Gweddi.Prayer, yn gynhwysfawr ac yn cael ei ddiweddarau'n gyson.



Bydd defnyddwyr yn derbyn gwybodaeth a cheisiadau gweddi cyfredol, gan dynnu sylw at bryderon lleol, cenedlaethol a byd-eang. Yn ogystal ag ysbrydoli gweddi bersonol, mae'r ap wedi'i gynllunio i helpu henaduriaethau lleol i rannu gwybodaeth ac anghenion gyda'u cymunedau eu hunain. Mae wedi'i strwythuro o amgylch tri dyddiadur gweddi: cenedlaethol, lleol a phersonol, gydag adrannau ar wahân ar gyfer newyddion a digwyddiadau.

Dywedodd y Parch. Owen Griffiths, gweinidog Henaduriaeth De-ddwyrain Cymru ac un o arweinwyr y prosiect hwn: 'Rwy'n credu mai'r ap hwn yw'r cyntaf o'i fath yng Nghymru. Am y tro cyntaf erioed, yn sicr o fewn Eglwys Bresbyteraidd Cymru (EBC), rydym yn defnyddio pŵer technoleg ddigidol i harneisio pŵer gweddi. Wrth i'r defnyddwyr agor yr ap, byddant yn dod yn rhan o gyd-destun lleol a rhyngwladol. Byddant yn cael eu cyflwyno i anghenion a bywydau cyd-Gristnogion, eglwysi a'r byd ei hun wrth symud eu bysedd ar draws y sgrin. O fewn eiliadau, gallwn fod yn rhannu gweddi dros anghenion Meirionnydd a Manipur!


'Mewn sawl ffordd, mae EBC wedi bod yn gweddïo'n ddigidol ers rhai blynnyddoedd bellach. Mae yna gyfarfodydd Zoom rheolaidd, lle mae pobl ar draws Cymru a'r byd yn gweddïo gyda'i gilydd. Ond mae Gweddi.Prayer yn mynd â ni i lefel newydd, lle gallwn weddïo'n ddi-baid, fel mae'r Beibl yn ei awgrymu yn 1 Thesalonïaid 5, adnod 17.'

Mae Gweddi.Prayer ar gael ar Google Play ac Apple App Store.

**Cymanfa Ganu
Unedig
Gogledd Ceredigion**

**Capel Bethel,
Aberystwyth**

**Dydd Sul,
17 Mai 2026
am 10yb a 5.30yh**



Arweinydd:

Gregory Vearey-Roberts

Trefn y Rihyrsals

Capel Bethel, Aberystwyth	22 Ebrill
Capel Seion, Aberystwyth	29 Ebrill
Capel y Morfa, Aberystwyth	6 Mai
Capel Bethel, Aberystwyth	13 Mai

**Bydd y rihyrsals i gyd yn cael eu cynnal
ar nos Fercher am 7 o'r gloch**

Edrych yn ôl ar 70 mlynedd yn y pulpod

Dechreuais bregethu pan oeddwn yn dal yn yr ysgol yn Llundain. Cefais fy rhoi ar restr pregethwyr yr Henduriaeth wedi imi gael fy nerbyn yn ymgeisydd am y weinidogaeth yno, gan bregethu i gynulleidfaoedd a wahaniaethai'n fawr o ran nifer. Er enghraifft, ceid hanner dwsin yn Jewin ar fore Sul, ond yn yr hwyr byddai Neuadd Cymry Llundain yn Gray's Inn Road yn llawn. Mae'n debyg mai galwadau'r rownd laeth ar fore Sul oedd i gyfrif am hyn. Roedd Capel Charing Cross hefyd â chynulleidfa fawr ar nos Sul, gyda llawer o bobl ifanc oedd wedi dod i Lundain i weithio neu astudio yn mynychu yn y cyfnod hwnnw.

Wedi imi ddod i Aberystwyth yn fyfyrwr yn y Coleg Diwinyddol, cefais ddigon o gyfle i bregethu ym mhulpudau'r Henaduriaeth a thu hwnt. Ac ymhen tair blynedd cefais alwad i ofalaeth y Borth a dod i adnabod eglwysi'r cylch yn dda iawn. Derbyniais groeso mawr ym mhob man – yn y capeli eu hunain ac ar aelwydydd yr aelodau a oedd yn 'cadw'r mis'.

Gofynnwyd imi fwy nag unwaith pa rai oedd yr oedfaon mwyaf cofiadwy dros y blynyddoedd. Doeddwn i ddim yn 'bregethwr Sasiwn'; yn wir, hyd y cofiaf, yr unig dro imi gyflawni'r gorchwyl hwnnw oedd yn Llanddewibrefi flynyddoedd yn ôl.

Ond fe gefais gyfleoedd diddorol i bregethu neu gymryd rhan mewn gwasanaethau nodedig pan oeddwn yn Llywydd Eglwysi Rhyddion Cymru a Lloegr yn 1990–1.

Un o'r achlysuron hynny oedd y Gwasanaeth Blynyddol i Ddathlu'r Gymanwlad yn Abaty Westminster pan offrymais weddi, a hynny o flaen y Frenhines Elizabeth. Roedd hi wedi mynegi anfodlonrwydd wrth fy rhagflaenydd am iddo fod yn rhy 'lawdrwm' ar Brydain am ei hymddygiad at wledydd tlawd y Gymanwlad yn y gorffennol.

Profiad unigryw oedd pregethu o flaen can mil o bobl mewn stadiwm yn Shillong, Gogledd Inda, pan oeddwn yn Llywydd y Gymanfa Gyffredinol. Fesul brawddeg yr oeddwn yn traddodi yn Saesneg, gyda phrifathro'r Coleg Diwinyddol lleol yn cyfieithu i'r iaith Khasi bob yn ail â mi. Y feirniadaeth ar y bregeth honno a glywodd Ina oedd ei bod yn rhy fyr!

Fe ddyfynnir dywediad adnabyddus y diwinydd mawr o'r Swistir, Karl Barth, yn aml: dylai'r pregethwr fynd i'r pulpud gyda'r Beibl yn y naill law a'r papur newydd dyddiol yn y llaw arall. Ceisiais ddilyn y cyngor hwn ar hyd y blynyddoedd wrth imi ymdrechu i sicrhau bod fy mhregethau'n berthnasol ac yn gyfoes.

John Tudno Williams



Gair o gydymdeimlad

Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf â theulu'r ddiweddar
Ina Tudno Williams yn eu profedigaeth.

Cofiwn yn arbennig am John, Haf a Mike, Tomos a Gwawr,
yr wyrion a'r wyresau, a'i brawd, Geraint,

Fe gyfrannodd Ina yn helaeth iawn at weithgareddau'r
ofalaeth, gan weithredu fel Cadeirydd yr Ofalaeth
yn ogystal â Chadeirydd y Pwyllgor Bugeiliol.

Bu hefyd yn Llywydd Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De.
Roedd ei chyfraniad yn ei heglwys yng Nghapel Seion yn un
eithriadol – gyda gwaith yr ysgol Sul ac fel ysgrifennydd.
Diolchwn i Dduw am ei chyfraniad nodedig.



Gweithredu'n ffyddlon

Wythnos Cymorth Cristnogol • 10-16 Mai 2026

cymorth
cristnogol
christian
aid

Defosiwn dyddiol

Dydd Sul

'Dych chi ddim yn meddwl y bydd e'n amddiffyn y bobl
mae wedi'u dewis iddo'i hun? Fydd e ddim yn oedi!
Bydd yn ymateb ar unwaith i'r rhai sy'n galw arno ddydd
a nos!' Darllenwch Luc 18:1-8

Ein Duw ni oll,
gweddiwn dros y rhai
nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed.
Rho glustiau i ni glywed cri cymunedau'n
galw am gyfiawnder. Amen.

Daw'r deunyddiau hyn a thasg Thudalen y Plant o wefan Cymorth
Cristnogol: [https://caw.christianaid.org.uk/uk/resources/
christian-aid-week](https://caw.christianaid.org.uk/uk/resources/christian-aid-week) - ac mae llawer o adnoddau eraill perthnasol i
Wythnos Cymorth Cristnogol i'w cael yno.

Dyma Fridah. Mae'n byw yng nghymuned anffurfiol Dagoretti yn Nairobi, sydd â dwysedd poblogaeth uchel. Mae'r rhan fwyaf o bobl yma'n ennill llai na doler y dydd. Mae'n eithriadol o anodd dod o hyd i swyddi sefydlog.

Yn anffodus, cafodd Fridah ei gwneud yn wraig weddw'n ddiweddar ac mae'n galaru am ei gŵr wrth wynebu heriau dyddiol ar yr un pryd. Mae Fridah'n rhentu lloches fetel rychiog sy'n gartref i'w gefeilliaid yn eu harddegau, Eliud ac Abiud, ei merch, a'i hŵyr pedair oed, Quillan. Does ganddyn nhw ddim dŵr tap ac mae'n rhaid iddyn nhw rannu toiled gyda'u cymdogion. I'r teulu hwn, mae'n frwydr barhaus yn erbyn newyn a chlefydau. Bob dydd, mae Fridah'n teimlo pwysau i sicrhau bod ei theulu'n cael eu bwydo: 'Rwy'n llawn pryderon. Ond alla i ddim rhoi'r ffidil yn y to – mae angen i fy mhlant fynd i'r ysgol. Mae angen iddyn nhw fwyta.' Ddylai neb orfod byw fel hyn. Mae'r hyn sy'n digwydd i Fridah a'i chymuned yn anghyfiawn. Ond mae newid yn bosibl.

Mae'r darlleniad heddiw'n dweud wrthym fod Duw'n malio'n fawr am anghyfiawnder. Mae'r wraig weddw'n dal i alw am gyfiawnder hyd yn oed pan fydd rhwystrau'n cael eu gosod o'i blaen. Dydy Fridah ddim yn rhoi'r ffidil yn y to chwaith. 'Rwy'n credu ynof fi fy hun ac yn gweddïo ar Dduw y byddaf yn llwyddo,' dywedodd wrth Cymorth Cristnogol.

Ystyriwch beth rydych chi'n ei wneud i sefyll dros gyfiawnder. Un cam posibl fyddai dysgu mwy am brofiadau eich cymdogion ledled y byd. Dechreuwch eich taith drwy glywed yn uniongyrchol gan Fridah a thrigolion eraill Dagoretti. Ewch i caweek.org neu caweek.ie i wylïo ein ffilm Wythnos Cymorth Cristnogol.



Capel y Garn

Llongyfarchiadau calonnog:

i Dan Mason, Awel-y-coed, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 90 oed ychydig cyn y Nadolig,

i Vernon Jones, a ddathlodd ei ben-blwydd yn 90 oed ar 22 Chwefror,

i Llio a Penri James ar enedigaeth wyres fach, Nina Elisabeth, merch fach i Rhun a Vicky.

Estynnir ein cydymdeimlad dwys:

â theulu'r diweddar Erddyn James, Lluarth, a fu farw ar 26 Chwefror. Meddyliwn yn arbennig am Penri a Llio, Llŷr a Rhian, yr wyrion a'r wyresau, a'r teulu estynedig. Bu Erddyn yn flaenor yn y Garn am ugain mlynedd ac roedd gofal am Fethlehem, Llandre, yn bwysig iawn iddo;

â Nans Morgan a theulu'r ddiweddar Dr Dilys Jones, Pennant. Cawsom gwmni Dilys mewn aml sesiwn ar Zoom yn ystod y cyfnodau clo;

â Gwen Cole ar farwolaeth ei chwaer, Tegwen Evans, Bont-goch.

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at:

Bet Evans, Llinos Evans, a Kathleen Lewis sydd wedi cael gofal yn yr ysbyty yn ddiweddar;

Bethan Jones, sydd wedi symud i fyw i Dunblane yn yr Alban, gan obeithio y byddwch yn ymgartrefu'n dda yn eich ardal newydd gyda'r teulu gerllaw.

Capel y Garn


Ebrill

Blaenor y mis: Gruffydd Aled Williams

- 3 Oedfa'r ofalaeth ar fore Gwener y Groglith
dan arweiniad y Parch. Ddr R. Watcyn James
Capel y Garn am 10 o'r gloch
- 5 Oedfa ar fore'r Pasg
dan arweiniad y Parch. Richard Lewis
Capel Noddfa am 10 o'r gloch
- 8 Chwirydd y Garn yn cyfarfod am baned a sgwrs
Crefftau Pennau am 2 o'r gloch
- 12 Oedfa am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Br Cynog Dafis
- 19 Oedfa gymun am 10 o'r gloch
dan arweiniad Dr Rhidian Griffiths
- 24 Noson yng nghwmni Georgia Ruth
Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
- 26 Oedfa am 10 o'r gloch
dan arweiniad rhai o'r aelodau

Dy nerth ar ein daear, O Arglwydd y wyrth,
ddeisyfwn i dreiglo y meini o'r pyrth,
dy nerth i gyfannu rhwygiadau yr oes,
y nerth a goncwerodd waradwydd y groes.

Vernon Jones



Capel y Garn

Mai

Blaenor y mis: Alan Wynne Jones

- 3 Oedfa am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Br Huw Roderick
- 6 Chwirydd y Garn yn cyfarfod am baned a sgwrs
Creffttau Pennau am 2 o'r gloch
- 10 Oedfa Cymorth Cristnogol am 2 o'r gloch
dan arweiniad y Parch. Eifion Roberts
- 17 Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion
Capel Bethel, Aberystwyth,
am 10 a 5.30 o'r gloch
- 24 *Sul y Pentecost*
Oedfa gymun am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Parch. Meirion Morris
- 31 Oedfa am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Br Lyndon Lloyd

Y Pentecost

Ar ddydd cyflawni cyfnod y Pentecost yr oeddent oll ynghyd yn yr un lle, ac yn sydyn fe ddaeth o'r nef sŵn fel gwynt grymus yn rhuthro, ac fe lanwodd yr holl dŷ lle'r oeddent yn eistedd. Ymddangosodd iddynt dafodau fel o dân yn ymrannu ac yn eistedd un ar bob un ohonynt; a llanwyd hwy oll â'r Ysbryd Glân, a dechreusant lefaru â thafodau dieithr, fel yr oedd yr Ysbryd yn rhoi lleferydd iddynt. (Actau 2:14)

Capel y Garn

Mehefin

Blaenor y mis: Marian Beech Hughes

- 3 Chwirydd y Garn yn cyfarfod am baned a sgwrs
Crefftau Pennau am 2 o'r gloch
- 7 Oedfa am 10 o'r gloch yng Nghapel Noddfa
dan arweiniad y Parch. Richard Lewis
- 14 Oedfa gymun am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Parch. Ddr R. Watcyn James
- 21 Oedfa am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Parch. Ddr Densil Morgan
- 28 Oedfa am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Parch. Ddr R. Watcyn James



Cynog Dafis yn cyflwyno hanes difyr un o'i hynafiaid ym Mhatagonia yn swper Gŵyl Ddewi Cymdeithas Lenyddol y Garn ym Methlehem, Llandre, nos Wener, 20 Mawrth.

Myfyrdod ar ddydd Gŵyl Dewi

Ychydig iawn wyddon ni am ein gorffennol, er mai o'r gorffennol hwnnw rydyn ni wedi dod. Mae'r gorffennol yn hir iawn iawn, ac yn tyfu bob dydd wrth i bob yfory droi'n ddoe. Mae rhyw ddwy filiwn o flynyddoedd oddi ar i *homo erectus* – y dyn cyntaf i aros ar ei ddwy goes – droedio'r ddaear am y tro cyntaf. Yn raddol fach, fesul cenhedlaeth, rydyn ni wedi cyrraedd o'r fan honno i'r lle rydyn ni heddiw. Ond ychydig iawn wyddon ni am gamau'r daith honno, am beth ddigwyddodd ar y ffordd i'n gwneud ni yr hyn ydyn ni heddiw.

Wyth gair hanfodol mewn iaith yw'r geiriau holi: 1. Pwy? 2. Beth? 3. Pryd? 4. Ble? 5. Sut? 6. P'un? 7. Faint? 8. Pam?

Mae ateb syml a phendant y rhan amlaf i'r saith cyntaf, ond mae 'Pam?' yn wahanol. Does dim ateb syml iddo. Mae plant wrth eu bodd yn holi pam – ac ymadroddion bach chwareus fel 'pam, pam, pwys o ham', neu 'pam yn peri a finnau'n pallu', neu 'pam mae coes oen bach yn gam', yn cael eu defnyddio er mwyn osgoi ateb y cwestiwn.

'Pam ydyn ni'n dathlu Gŵyl Ddewi?' yw fy nghwestiwn i heddiw.

Un ateb cyfleus, a digon rhesymol, fyddai '**Pam lai?** Mae pawb arall yn gwneud hynny.'

Ond i gael ateb teilwng rhaid ateb y saith cwestiwn arall, ac i wneud hynny mae angen mynd yn ol i'r gorffennol. Mae'r cyfan wyddon ni am Ddewi erbyn hyn yn tarddu o *Buchedd Dewi* gafodd ei hysgrifennu tua'r flwyddyn 1090 gan Rygyfarch o Lanbadarn Fawr.

1. **Pwy** oedd Dewi?

Lleian o'r enw Non oedd ei fam, ac un o frenhinoedd Ceredigion oedd ei dad e. Mae'n sicr bod rhieni Dewi'n Gristnogion am eu bod wedi dewis yr enw Dafydd iddo fe – enw Hebraeg o'r Beibl, aeth yn Dewi ar lafar.

2a. **Beth** yw sant?

Patrwm o ddaioni i bobl hunanol a phechadurus; personoliad o'r rhinweddau sy'n cael eu galw'n ffrwyth yr Ysbryd gan yr Apostol Paul yn ei Epistol at y Galatiaid: cariad, llawenydd, hirymaros, amynedd, cymwynasgarwch, daioni, ffydd, addfwynder, a dirwest.

2b. **Beth** wnaeth Dewi?

Sefydlodd fynachlog yng Nglyn Rhosyn yn Nyfed, sef Tyddewi. Y wyrth gyntaf i gael ei chysylltu â Dewi oedd iddo roi ei olwg yn ôl i'w athro Peulin yn yr ysgol yn Hen Fynyw.

3. **Pryd** oedd Dewi'n byw?

Cafodd ei eni tua 520 a bu farw ar Fawrth 1af yn y flwyddyn 589.
Tua'r flwyddyn 1120 y cafodd ei ddyrchafu'n sant gan y Pab a'i enwi'n nawddsant Cymru.

4. **Ble** cafodd Dewi ei eni a **ble** buodd e'n byw?

Yng Ngheredigion, yn Hen Fynyw, ger Aberaeron, y ganwyd Dewi ac yno y treuliodd ei fachgendod, cyn sefydlu ei fynachlog yn Nhyddewi. Mae naw o eglwysi wedi eu cysegru iddo yng Ngheredigion.

5. **Sut** buodd e byw?

Bywyd asgetig oedd bywyd Dewi; roedd e'n osgoi pob esmwythdra a moethusrwydd. Yn y disgrifiad o drefn bywyd mynachlog Dewi yng ngwaith Rhygyfarch, mae'r canlynol:

* aredig heb ychen na cheffylau – doedden nhw ddim yn defnyddio anifeiliaid i ysgafnhau'r gwaith caled roedd gofyn i ddyn ei wneud

* ymwrthod ag eiddo – doedd neb yn cael bod yn berchen ar ddim, rhannu a chydrannu popeth oedd y drefn

* bwyta dim byd ond llysiau – cynnyrch naturiol y ddaear, ac yfed dim ond dŵr.

Roedd ufudd-dod llwyr i'r drefn honno yn hanfodol. Dyma sydd wrth wraidd ei neges olaf: 'Cedwch y ffydd a gwnewch **y pethau bychain** a glywsoch ac a welsoch gennyf i'. Nid gofyn i ni gyflawni gwyrthiau mae e.

6. **P'un** oedd gwyrth enwocaf Dewi?

Peri i'r ddaear godi o dan ei draed pan oedd yn pregethu yn Llanddewibrefi.

7. **Faint** o ddylanwad gafodd e?

Mae pa mor boblogaidd oedd Dewi yn cael ei adlewyrchu yn y ffaith bod 60 o eglwysi wedi eu cyflwyno iddo erbyn y flwyddyn 1200, mwy nag unrhyw sant arall; Teilo sy'n dod agosaf ato gyda 25 o eglwysi.

Mae un cwestiwn **Beth?** arall i'w ateb, sef **Beth yw ystyr dathlu?**

Cydgofio, **cydwerthfawrogi**, **cydlawenhau**; mae'r geiryn bach **cyd** mor bwysig – gwneud pethau gyda'n gilydd, galw i gof a gwerthfawrogi gyda'n gilydd, rhannu atgofion a theimladau â'n gilydd. Trwy wneud pethau gyda'n gilydd mae cymdeithas yn ymffurfio, gan gyfoethogi bywydau pawb. Gorau i gyd os yw'n digwydd yng ngoleuni rhinweddol ffrwythau'r ysbryd: cariad, llawenydd, hirymaros, cymwynasgarwch, daioni, ffydd, addfwynder, dirwest, gostyngeiddrwydd, ac anhunanoldeb.

Llinos Dafis

(Seiliedig ar gyflwyniad yn oedfa Gŵyl Ddewi'r Garn)

Llwch Oged: dathlu gwaith Vernon Jones

Daeth cynulleidfa niferus ynghyd yng Nghapel y Garn, nos Wener, 20 Chwefror, i gyfarfod arbennig o'r Gymdeithas Lenyddol i ddathlu a mwynhau gwaith y bardd lleol Vernon Jones ar drothwy ei ben-blwydd yn 90 oed. Arweinydd y noson oedd Llinos Dafis, a hi hefyd fu'n gyfrifol am lunio a saernïo'r cyflwyniad.

Cafwyd cyfle i glywed detholiad o gerddi Vernon o'i dair cyfrol o farddoniaeth – *Llwch Oged* (1968); *Gogerddan a Cherddi Eraill* (1982) ac *Y Llafn Golau* (2000) – yn ogystal â'i waith mwy diweddar.

Dros y blynyddoedd mae Vernon wedi ennill nifer fawr o wobrau yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac mewn eisteddfodau lleol ledled Cymru. Ym mis Tachwedd 2025, enillodd y wobr gyntaf yng Ngŵyl Gerdd Dant Aberystwyth am ei dribannau i'r 'Tymhorau', a hyfryd oedd gwrandeo ar ddehongliad Enid a Mirain ohonynt, i gyfeiliant Llio Penri ar y delyn.



Gan ddechrau wrth ei draed, fel petai, yn ei gerdd i Ben-y-garn, mae Vernon yn cyfeirio at drindod o Gapel y Garn a fu'n fawr eu dylanwad arno'n blentyn. Y tri hyn oedd: ei weinidog, sef y Parch. Wallace Thomas, 'yn bachu'r lamp uwchben y praidd'; y cerddor J. T. Rees – 'tywalltai olew ar dân y mawl'; a'r 'Gamaliel' Dewi Morgan (Dewi Teifi), 'bardd penwyn y deml'.

Pur wahanol oedd ei brofiad tu ôl i'r festri yng nghwmni 'Pregethwr' arall, sef Niclas y Glais, mewn cerdd a drafodwyd gan yr Athro Gruffydd Aled Williams:

Wrth gefn y festri
rhannodd offrwm dwy Wdbein
rhwng pedwar crwt a'r wal.

Ond eto, bu yntau'n ffynhonnell ysbrydoliaeth i'r bechgyn ifanc i feithrin eu ffydd:

Gwnaeth y pethau bychain bachgennaidd
A bu i ninnau gadw'r ffydd.

Mae cyfraniad Vernon i Gapel y Garn dros y blynyddoedd wedi bod yn un eithriadol o gyfoethog, ac yntau'n flaenor ers 55 o flynyddoedd ac yn mynychu'r oedfaon bob Sul. Felly, nid annisgwyl deall bod yr emyn yn bwysig iddo, fel y dywed yn ei soned i'r emyn:

Pan gwrddo dau neu dri ar noson arw
Ar gwr y mynydd yn y capel plaen,
I sôn am fywyd ac i sôn am farw
Tydi sy'n gosod ar brofiadau raen;
Mae ymchwydd cariad yn dy eiriau'n cronni
A moliant oesau wrth dy ganu'n tonni.

Cyfansoddodd nifer
helaeth o emynau,
a chafwyd cyfle i
werthfawrogi nifer
ohonynt yn ystod y
noson. Dewis Eleri
Roberts, un a fu'n
mynychu
dosbarthiadau
Vernon ar y
gynghanedd, oedd
dehongliad
teimladwy Côr



Pantycelyn o'i emyn

'Deisyfiad': 'Anadla, lôr, y Gwanwyn fel awel dros ein tir / I ailddihuno
Cymru o gwsg gaeafau hir', ac fe ganodd Côr y Garn a'r Noddfa ei
emyn o fawl i'r Gwasanaeth Iechyd.

Cyflwynodd plant hynaf Ysgol Rhydypennau eu teyrnged i Vernon ar
ffurf ffilm yn eu dangos yn astudio rhai o'i gerddi i adar ac afonydd
lleol, a'u hysbrydolodd i roi cynnig ar lunio'u cerdd eu hunain.

Cafwyd teyrngedau hefyd gan y beirdd lleol Huw Ceiriog ac Anwen
Pierce. Dyma gyfraniad Huw Ceiriog, sy'n cwmpasu'r dwys a'r ysgafn:

Ni fu yr Awen yn benyd – erioed
Yng Ngaerwen drwy fywyd.
Bardd y geiriau hardd o hyd
A'n meistr wyt ym Mowstryd.

I Vernon

A minnau gynt ym Mhen y Garn
Fe ddeuai un i rannu barn.
Fe glywid cnoc ar ddrws y cefn,
Cans yno dyna oedd y drefn.

Fe safai Vernon wrth y drws
A llond ei ben o emau tlws.
A sgwrsio wnaem ar bwys y tân
Am eisteddfodau mawr a mân.

O'r holl steddffodau yma nawr
Enillai Vernon arian mawr,
Heb sôn am y cadeiriau lu -
Fel ail John Lewis yw ei dŷ!

Ond o bob steddffod yn y wlad
Mae 'na un bob tro'n fwynhad.
Eisteddfod Powys, debyg iawn,
Yw'r un sy'n cael y marciau llawn.

Yn ôl hanesydd yr ŵyl hon
Fe gafodd wobrau mawr o'r bron.
Yn Nyffryn Banw'r gadair gaed
Pan safodd Vernon ar ei draed.

Ac ym Machynlleth coron gaed
Pan gododd eto ar ei draed.
Anrhydedd mawr i'r steddffod hon
Fu cael bardd gwyh i goron John.

(Price)

I ymrysonau mawr a bach
Yr aem yn griw o hogle iach.
I Sir Drefaldwyn ambell waith,
A swper wedyn wedi'r daith. ...

A Tegwyn o Faes Ceiro'n wych
Ei odlau ydoedd, dim byd sych.
Ac nid un sych oedd Arwel chwaith
Yn weinidog Baptist wrth ei waith.

Fe grwydrem Cymru, mae yn saff,
I drïo plesio'r Meuryn craff.
Ond ni fu'r ffeinal inni'n wobr,
O edrych 'nôl, mae hyn yn sobr.

I lannau'r Ddyfi Steddffod ddaw
(Gobeithio na fydd mwd a glaw).
Eisteddfod Powys, medden nhw,
Yn anwybodus ar fy llw.

Mae un i'w gael ers amser maith,
Dros ddau gan mlynedd fu ei thaith.
Ond i hon eto, ai'r Gaerwen
Fydd cartre'r goron, a FO'n ben?

Lle'r aeth yr amser, meddech chi,
O'r dyddiau braf pan oeddem ni
Ein dau yn hoff o rannu barn
A minnau gynt ym Mhen y Garn.

Dyma gywydd Anwen, sy'n crynhoi dawn ac amrywiol ddiddordebau Vernon:

O du'r Gaer y daw'r geiriau
a swyn un gŵr sy'n eu gwau,
yn ddyn gwâr a'i ddawn gywrain
yn creu patrwm cwlwm cain,
penillion sy'n lliwio'n llên,
rhoi gwerth i bwythau'r garthen.

O'r caeau y daw'r cywydd,
o'i ardd a'i ros y gerdd rydd,
ias ei gân o'i filltir sgwâr,
rhodd ei awen o'r ddaear.

Ei gri o stand y Piod
a'i gae o lais a dry'n glod;
rhoi gwe wyrthiol i'r garthen
wna geiriau hud bardd Gaer-wen,
a'i Bow Stryd i gyd yn gwau
yn emyn o batrymau.

Fel y cyfeiria Anwen, bu Vernon yn gefnogwr brwd i'r Piod, tîm pêl-droed Bow Street, ers blynyddoedd lawer ac ef yw Llywydd Anrhydeddus y clwb. A detholiad o gerdd o'i eiddo am gêm ddarbi go danbaid rhwng y Piod a'r Brain (tîm y Borth) a gyflwynwyd gan Gareth William Jones.

Yn ei gerdd 'Athrawes' mae Vernon yn talu teyrnged i Dilys, ei wraig a'i gymar barddol, a fu'n athrawes ysgol Sul yng Nghapel Pen-rhiw am dros ddeugain mlynedd:

Ar gwr y rhywiog weryd
Y mae un yma o hyd
Na chlwyddodd o'i chaledwaith
Un dydd o'i haberthol daith.
Egni oes hi roes yn rhad
Yn rhinwedd ei chyfraniad.

I gloi'r cyfarfod, canodd y côr yr emyn a luniwyd ar y cyd gan Vernon a Dilys, ar y dôn 'Bwlchcoch', a gyfansoddwyd gan arweinydd y côr, Alan Wynne Jones. Yn yr emyn hwn cawn ein hannog i fuddsoddi 'ein gobeithion / ym mywyd Iesu Grist', oherwydd 'efe sydd yn ein codi / o bob rhyw ddyfnder trist'. Ac fel y dywed y cytgan:

Rhaid i'n ymddiried ynddo,
mae'i gariad yn parhau
a'i Dduwdod fel ei ddyndod
sy'n fodd i lawenhau.



**Vernon yn torri'r gacen,
gyda chymorth Dilys a Swyn**

Yn dilyn y cyfarfod, roedd cyfle i rannu cacen i ddathlu pen-blwydd arbennig Vernon, gan ddiolch iddo am ei gyfraniad i fywyd crefyddol ei fro ac i draddodiad barddol Cymru. Ategwn ddymuniad Llinos Dafis y cawn weld cyhoeddi cyfrol arall a fydd yn cynnwys ei waith diweddar – ac y bydd yn dal ati i gyfoethogi ein llên.

Dydd Gweddi'r Byd

Ar Ddydd Gweddi'r Byd, 6 Mawrth, cafwyd gwasanaeth yng Nghapel Pen-llwyn, pryd y daeth gwragedd o'r capel ynghyd ag aelodau o Eglwys Dewi Sant a ffrindiau o Goginan at ei gilydd i addoli. Paratowyd y gwasanaeth eleni gan Grŵp Ecwmenaidd o Ferched Cristnogol Nigeria.

Y thema o'u dewis oedd geiriau o Efengyl Mathew, 'Rhoddaf orffwys i chi, dewch'. Cawsom hanes trist pedair merch o Nigeria; nid yr un oedd eu sefyllfaoedd, ond yr un oedd ffydd y pedair a'u hawydd i drechu anghyfiawnder, ansicrwydd, erledigaeth grefyddol, tlodi ac anobaith oedd yn bodoli yn eu gwlad.

Diolch i Dr Watcyn James am ymhelaethu ar y thema 'Deuwch ataf fi, bawb sy'n flinderog ac yn llwythog, a mi a esmwythaf arnoch'.

Pwy gaiff eu gwahodd, eu gwahodd i beth, a phwysigrwydd ymateb i'r gwahoddiad. Diolch fod y gwahoddiad hwn i bawb, ymhob sefyllfa, a'r anogaeth i drystio Duw, yr un sy'n cynnal ein beichiau, ac yna derbyn gorffwysra a'i gyflwyno i'r byd.

Diolch i'r merched Cristnogol am y gwasanaeth hwn. Gweddiwn y bydd storïau'r merched yn annog ac yn ysbrydoli merched drwy'r byd i uno mewn gweddi a thrwy hynny dderbyn gorffwysra i'w heneidiau.

Cafwyd paned a sgwrs ar ddiwedd y gwasanaeth, a diolch i bob un a gymerodd ran. Delyth Davies oedd yn chwarae'r organ.





Chwirydd Capel Pen-llwyn, Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor, a ffrindiau o Goginan, yn dilyn eu gwasanaeth ar 6 Mawrth.



Cynhaliwyd Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd yng Nghapel y Garn bore Sul, 22 Mawrth. Cymerwyd rhan gan chwirydd o'r Garn a'r Noddfa, a braf oedd gweld cynulleidfa niferus yn bresennol.

Cymdeithas y Chwiorydd – Rehoboth

Daeth yr aelodau ynghyd i festri Rehoboth brynhawn Mawrth, 9 Rhagfyr, ac estynnodd Meinir Fleming groeso i bawb ac i'r gŵr gwadd, Rhodri Francis, Trefechan. 'Atgofion' oedd teitl ei sgwrs, ac roedd ganddo nifer o deganau o'r oes o'r blaen ar y bwrdd o'i flaen. Yn ystod y prynhawn cawsom gyfle i drafod a rhannu hanesion am deganau ac arferion y Nadolig adeg ein plentyndod. Clywsom storïau difyr gan amryw o'r aelodau a mwynhawyd y sgysiau yn fawr, gan ddiolch i Rhodri Francis am ein hannog i adrodd yr hanesion. Mwynhawyd y te a'r mins peis a baratowyd gan Meinir Fleming ac Aileen Williams i gloi'r cyfarfod.

Estynnwyd croeso i lestyn a Marian Hughes, Bow Street, i'r cyfarfod ar 10 Chwefror, a chawsom weld ffilm o'u gwyliau yn Ewrop yn ystod mis Mai y llynedd. Ar ôl hedfan i Napoli, aethant ar daith Interrail ar draws wyth o wledydd Ewrop gan aros mewn nifer o ddinasoedd hanesyddol ar hyd y ffordd, cyn gorffen y daith ym Mharis. Roedd yn braf gweld y golygfeydd hyfryd a lluniau o'r dinasoedd a welsant ar hyd y daith, yn ogystal â chael hanes a disgrifiad o'r lleoliadau.

Diolchwyd yn gynnes iddynt am eu cyfraniad, a daeth y prynhawn i ben gyda phaned a chacen a baratowyd gan Mair Rowlands a Carys Briddon.

Swyddogion yr Ofalaeth

Cadeirydd: Alwyn Hughes, Madog

Is-gadeirydd: Glyn Saunders Jones, y Garn

Ysgrifennydd: Gruffydd Aled Williams,

Bronafon, Dolau, Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AE

(ffôn: 01970 820664; ebost: gawilliams1@btinternet.com)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **7 Mehefin** i'r golygydd:

Marian B Hughes, 14 Maes y Garn, Bow Street

01970 828662; marian_hughes@btinternet.com